Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru

Ionawr 2023

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru

Ionawr 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Casgliadau ac Argymhellion** .......... 5

**1. Y cefndir** .......... 6

**2. Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru** .......... 7

**3. Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru** .......... 10

**Atodiad: Hanes gyrfa – Dr Kate Chamberlain** .......... 11

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor wedi penodi David Francis yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 16 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2027. ................................................................. 9

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor wedi penodi Dr Kathryn Chamberlain yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 16 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2027. ................................................. 9

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Senedd Cymru yn penodi Dr Kathryn Chamberlain yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr Aelodau Anweithredol, rhwng 16 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2027. ........................................................................................................10

# 1. Y cefndir

**1.** Ar 5 Mawrth 2013, pasiodd Senedd Cymru **Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013** (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

**2.** Mae'r Ddeddf yn rhoi llawer o gyfrifoldebau i Senedd Cymru, gan gynnwys penodi pum Aelod Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys y Cadeirydd) a gwneud y trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol.

**3.** Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru. O dan **Reolau Sefydlog 18.10(v), 18.10(vii) a 18.10(viii)**, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau Senedd Cymru yn ymwneud â phenodi Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru (ac eithrio'r Cadeirydd), a phenderfynu ar delerau penodi'r Aelodau Anweithredol (gan gynnwys taliadau cydnabyddiaeth).

# 2. Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru

## Rôl y Pwyllgor Cyllid

**4.** Mae'r gwaith o benodi Aelodau Anweithredol wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor o dan **Reol Sefydlog 18.10(v)**. Fodd bynnag, y Senedd sy'n gyfrifol am benodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Anweithredol.[1] Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10(iv), mae'r Pwyllgor yn argymell Aelod Anweithredol i Senedd Cymru ei benodi'n Gadeirydd.

**5.** Yn unol â'r Ddeddf, gellir penodi Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cadeirydd am dymor o hyd at bedair blynedd, a gallant wasanaethu am hyd at ddau dymor.[2]

## Yr Aelodau Anweithredol presennol

**6.** Lindsay Foyster yw'r Cadeirydd presennol a daw ei hail dymor, sef ei thymor olaf, i ben ar 15 Mawrth 2023, ac mae hynny'n creu swydd wag ar gyfer Cadeirydd ac Aelod Anweithredol newydd.

**7.** Bydd tymor cyntaf Aelod Anweithredol arall, David Francis, yn dod i ben ar 15 Mawrth 2023 felly gellir ei benodi i wasanaethu am ail dymor (yn amodol ar fodloni'r gofynion cymhwystra yn y Ddeddf). O'r tri Aelod Anweithredol sy'n weddill, mae un yn ei ail dymor, a daw'r tymor hwnnw i ben ar 30 Mehefin 2025, ac mae'r ddau arall yn eu tymor cyntaf, a ddaw i ben ar 30 Medi 2024 ac 16 Hydref 2024.

**8.** Gwahoddwyd yr holl Aelodau Anweithredol sy'n gwasanaethu i ystyried gwneud cais i'w penodi'n Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru am weddill eu cyfnod presennol yn eu swydd.

## Y broses recriwtio

**9.** Hysbysebwyd y rôl ar 27 Gorffennaf 2022 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 16 Medi 2022.

**10.** Er mwyn denu amrywiaeth o ymgeiswyr cryf, cytunodd y Pwyllgor i benodi **Penna Consulting**, sef asiantaeth chwilio am swyddogion gweithredol, i gynorthwyo â'r broses recriwtio.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5
[2] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 6

**11.** Hysbysebwyd y rôl gan ddefnyddio cyhoeddiadau electronig, y cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol. Roedd yr hysbyseb i'w gweld mewn amrywiaeth o leoedd, gan gynnwys Fish4jobs; Times online; Guardian online; Golwg 360; a gwefannau'r Senedd a Penna.

**12.** Y rhain oedd aelodau'r panel:

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- Yr Athro Alan Alexander, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio'r Alban
- Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol, Senedd Cymru

**13.** Daeth 36 o geisiadau i law gan 12 o ferched a 23 o ddynion (nid oedd 1 ymgeisydd wedi llenwi'r ffurflen amrywiaeth). Cafodd 6 o'r ymgeiswyr eu cyfweld, gan gynnwys yr Aelod Anweithredol presennol sy'n gymwys i wasanaethu am ail dymor.

**14.** Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 27 a 28 Hydref 2022, a holwyd yr ymgeiswyr ynghylch y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd.

**15.** Yn anffodus, nid oedd yr Athro Alexander yn gallu bod yn bresennol yn y cyfweliadau oherwydd salwch, ond cawsant eu cynnal gyda gweddill aelodau'r panel. Roedd Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, hefyd yn bresennol yn ystod y cyfweliadau fel sylwedydd annibynnol. Yn ddiweddarach, cafodd yr Athro Alexander adroddiad yn crynhoi'r cyfweliadau a phenderfyniad y panel ac fe'i cymeradwyodd.

## Ymgynghori ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi

**16.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Senedd Cymru ymgynghori â "pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" cyn pennu trefniadau cydnabyddiaeth a thelerau penodi eraill ar gyfer yr Aelodau Anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd).[3] Yn unol â hynny, ymgynghorodd y Pwyllgor Cyllid â Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu yn Llywodraeth Cymru, a ddywedodd ar 7 Medi 2022[4] nad oedd ganddo sylwadau penodol i'w rhannu.

**17.** At hynny, yn unol â gofynion y Ddeddf[5], cyn pennu'r amodau a'r telerau ar gyfer penodi'r Cadeirydd, ymgynghorodd y Pwyllgor â'r Prif Weinidog ac ni chafwyd ymateb.

---

[3] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 9(1)
[4] Llythyr gan Is-adran Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru: Ymgynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi Aelodau Anweithredol, 7 Medi 2022
[5] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 7(2)

## Penodi Aelodau Anweithredol

**18.** Yn dilyn y broses recriwtio, dewiswyd dau ymgeisydd i ymgymryd â rôl Aelodau Anweithredol, am hyd at bedair blynedd.

**19.** Dyma'r ymgeiswyr llwyddiannus:

- David Francis; a
- Dr Kathryn Chamberlain

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor wedi penodi David Francis yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 16 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2027.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor wedi penodi Dr Kathryn Chamberlain yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 16 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2027.

# 3. Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

**20.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Senedd Cymru benodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Anweithredol.[6] Rhaid i'r Pwyllgor, felly, wneud argymhelliad i Senedd Cymru ei gymeradwyo.[7]

**21.** Cafodd y Pwyllgor saith cais ar gyfer swydd y Cadeirydd gan 2 o ferched a 5 o ddynion. O'r rhain, dewisiwyd 3 ymgeisydd i'w cyfweld.

**22.** Yn dilyn y broses recriwtio, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid penodi Dr Kathryn Chamberlain yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (mae hanes gyrfa Dr Chamberlain wedi'i atodi i'r adroddiad hwn).

**23.** Yn unol â'r Ddeddf, mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori â'r Prif Weinidog ynglŷn â phenodi'r Cadeirydd.[8] Ymatebodd y Prif Weinidog ar 24 Tachwedd 2022[9] ac nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau i'r ymgeisydd dan sylw.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Senedd Cymru yn penodi Dr Kathryn Chamberlain yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr Aelodau Anweithredol, rhwng 16 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2027.

---

[6] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5
[7] Rheol Sefydlog 18.10(iv)
[8] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5(2)
[9] Llythyr gan y Prif Weinidog: Ymgynghori ynghylch penodi'r Cadeirydd, 24 Tachwedd 2022

# Atodiad: Hanes gyrfa – Dr Kate Chamberlain

## CRYNODEB

Rwyf wedi treulio blynyddoedd lawer yn gweithio mewn rolau strategol uwch sy'n galw am gryn dipyn o atebolrwydd personol a chyhoeddus. Mae gen i brofiad o weithio fel llysgennad a llefarydd ar ran sefydliadau er mwyn creu delwedd gref a chredadwy a chodi ymwybyddiaeth o'u rôl. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r cyfryngau ac yn uniongyrchol â'r dinasyddion yr wyf wedi'u cynrychioli.

Rwyf wedi adeiladu sefydliadau llwyddiannus o'r newydd, ac wedi gweddnewid eraill. Yn ystod 2020, sefydlais gorff cyhoeddus newydd, sef yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion, gan recriwtio'r holl staff a meithrin gweithlu cadarnhaol a medrus. Rhwng 2013 a 2020, llwyddais i drawsnewid dulliau gweithio Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn dilyn adolygiad beirniadol gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2013. Mae gennyf felly brofiad uniongyrchol o ddatblygu strategaethau a'u rhoi ar waith.

Mae gennyf brofiad o lywodraethu da mewn amrywiaeth o amgylcheddau: Rwyf wedi sefydlu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer dau gorff cyhoeddus newydd ac, fel eu Prif Weithredwr, roeddwn yn aelod o Fwrdd pob un; fel Prif Weithredwr AGIC rwyf wedi arwain adolygiadau o drefniadau llywodraethu cyrff iechyd yng Nghymru; rwyf wedi bod yn aelod annibynnol o ddau Bwyllgor Archwilio a Risg. Mae gennyf brofiad o weithio mewn rolau anweithredol a gweithredol ac rwy'n sylweddoli'r gwerth sydd mewn sicrhau bod y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Weithrediaeth yn un gref sy'n ategu'i gilydd. Oherwydd fy nghefndir ym maes rheoleiddio, rwyf hefyd yn gyfforddus yn herio sefydliadau ynghylch eu perfformiad ac yn gallu gweithio gyda nhw i wneud cynigion ymarferol ar gyfer datblygu.

## ADDYSG

| | |
|---|---|
| **1985-1988** | **PhD 'The use of sample spacings in parameter estimation – with applications'**<br>**Dyfarnwyd: Chwefror 1990, Prifysgol Cymru, Caerdydd** |
| **1981-1985** | **BSc (Anrh) 'Ystadegau gyda Thechnegau Gwyddor Rheoli'**<br>Dyfarnwyd **Dosbarth 1af** (Gorffennaf 1985), Prifysgol Cymru, Caerdydd |

## CYFLOGAETH

| | |
|---|---|
| **Ebrill 2021 - hyd heddiw** | **Prif Weithredwr yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion (IMA)** |
| **Mawrth 2020 - Ebrill 2021** | **Prif Weithredwr Dros Dro'r IMA**<br>*Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r IMA*<br>*Yn atebol i'r Bwrdd am berfformiad gweithredol y sefydliad.*<br>*Yn atebol i'r Gweinidog Cyfiawnder am lywodraethu da ac am ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol.* |
| Prif lwyddiannau: | Adeiladu sefydliad o'r newydd ymhen cyfnod o 10 mis. Gyda chefnogaeth tîm rhaglen a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder roeddwn yn |

| | |
|---|---|
| | gyfrifol am arwain ar bob agwedd ar greu corff newydd. Cefais fy mhenodi wedyn i arwain y sefydliad yn barhaol. |
| **2013 - Mawrth 2020** | **Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**<br>*Roeddwn yn gyfrifol am reoleiddio ar arolygu pob agwedd ar ofal iechyd yng Nghymru, gan gynnwys cyrff annibynnol a'r GIG.*<br>Roedd gennyf gyfrifoldebau penodol dros Wasanaeth Adolygu'r Ddeddf Iechyd Meddwl. |
| **2009-2012** | **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi *(a Phrif Ystadegydd),* Llywodraeth Cymru**<br>Rheoli gwasanaethau ystadegol; cyngor economaidd; ymchwil cymdeithasol; ymchwil gweithredol; gwybodaeth ddaearyddol; gwasanaethau llyfrgell ac archifau; seilwaith technegol i gefnogi'r uchod.<br>Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru |
| **2003-2009** | **Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru**<br>Rheoli gwasanaethau ystadegol;<br>Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru |
| **2001-2003** | Prif Weithredwyr Uned Ddata Llywodraeth Leol, Cymru<br>Sefydlu ac arwain y sefydliad |
| **1990-2001** | **Y Comisiwn Archwilio (Cymru)**<br>Arwain tîm o archwilwyr ac ymgynghorwyr i adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a'r Gororau. |
| **1988-1990** | **Nwy Prydain**<br>Cynnal gwaith ymchwil a datblygu i helpu i ddatblygu adrannau cynllunio corfforaethol a gwasanaethau gweithredol |

## COSTAU ERAILL

| | |
|---|---|
| **2021-hyd heddiw** | **Cydbwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu De Cymru a Heddlu De Cymru, Aelod Annibynnol** |
| **2019 - 2020** | **Aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Risg Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) Llywodraeth Cymru** |
| **2015 – 2017** | **Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro** |
| **2014 - hyd heddiw** | **Aelod o Glas Cymru Holdings Limited** |
| **Awst '11 ac Awst '12** | **Gwirfoddoli yng Nghaffi Cymunedol Cwmdu** |
| **2001-2004** | **Trysorydd Clwb Anabl Aberhonddu a'r Cylch** |